



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

## **Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009**

Adroddiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar  
Ardaloedd Morol Gwarchoddedig yng Nghymru

## **Cynnwys**

Rhan 1 Cyflwyniad

Rhan 2 Rhwydwaith yr Ardaloedd Morol Gwarchoddedig (AMG) yng Nghymru

Rhan 3 Asesiad yn erbyn Adran 123(2)

Rhan 4 Gwaith pellach i fodloni Adran 123(2)

## **Atodiadau**

**Atodiad A - Rhestr o Gynefinoedd a Rhywogaethau a Ddiogelir gan AMG Cymru**

**Atodiad B - Rhestr o Fylchau a Ddynodwyd yn Asesiad Rhwydwaith AMG Cymru**

**Atodiad C - Asesiad o Gyflwr Dangosol ar Lefel Nodwedd**

Ionawr 2019

## **RHAN 1 CYFLWYNIAD**

1. Y ddogfen hon yw adroddiad Llywodraeth Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag Adran 124 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (y Ddeddf Forol).
2. Mae Adran 124 Deddf y Môr yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyflwyno adroddiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru bob chwe blynedd i nodi:
  - a) I ba raddau y mae amcanion Adran 123(2) wedi'u bodloni, ac
  - b) Unrhyw gamau pellach y mae angen eu cymryd er mwyn cyfrannu at gyflawni amcanion Adran 123(2).
3. Mae Adran 123(2) Deddf y Môr yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddynodi Parthau Cadwraeth Morol (PCM) sydd ynghyd ag unrhyw PCM eraill, Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (Safleoedd Morol Ewropeaidd), Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a safleoedd Ramsar yn ffurfio rhwydwaith ar draws ardal forol y DU.
4. Mae'n ofynnol i'r rhwydwaith:
  - a) Gyfrannu at gadw neu wella'r amgylchedd morol yn ardal forol y DU,
  - b) Cynrychioli'r ystod o nodweddion sy'n bodoli yn ardal forol y DU,
  - c) Adlewyrchu'r ffaith y gallai cadw nodwedd olygu y bydd angen dynodi mwy nag un safle.

### **Cyfnod Adrodd**




5. Yr adroddiad hwn yw'r trydydd adroddiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'n cwmpasu'r cynnydd a wnaed yn nyfroedd glannau Cymru rhwng Ionawr 2014 a Rhagfyr 2018.
6. Mae'r adroddiad hefyd yn cwmpasu dyfroedd môr mawr Cymru rhwng Ebrill 2018 a Rhagfyr 2018. Mae hyn yn adlewyrchu trosglwyddo pwerau cadwraeth natur ar gyfer ardal môr mawr Cymru o'r Ysgrifennydd Gwladol i Weinidogion Cymru, a drosglwyddodd mewn dau gam yn ystod 2017 a 2018.
7. Darparwyd adroddiadau blaenorol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Rhagfyr 2012, pan gafwyd yr adroddiad cyntaf ac adroddiad dilynol ym mis Chwefror 2014, mewn ymateb i argymhelliad gan ymchwiliad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd i bolisi morol ar gyfer y cyfnod Ionawr 2013 i Ragfyr 2013 .

### **Rhwymedigaethau Bioamrywiaeth Cenedlaethol a Rhyngwladol**

8. Mae gan Lywodraeth Cymru nifer o rwymedigaethau i ddiogelu bioamrywiaeth forol. Mae'r rhain wedi'u rhestru yn Nhabl 1. Mae'r rhwymedigaethau cenedlaethol a rhyngwladol a restrir yn cynnwys sefydlu rhwydwaith o

Ardaloedd Morol Gwarchoddedig (AMG), sy'n diogelu, yn gwarchod ac yn adfer lle bynnag y bo'n bosibl, yr ystod o rywogaethau, cynefinoedd a phrosesau ecolegol a geir o fewn yr amgylchedd morol gan gefnogi'r defnydd cynaliadwy o'n moroedd yr un pryd.

**Tabl 1 Rhwymedigaethau i Ddiogelu Bioamrywiaeth Forol**

Rhyngwladol	
	<p><b>Y Confensiwn ar Amrywiaeth Biolegol</b> - mae hwn yn ei gwneud yn ofynnol i bartïon i'r confensiwn sefydlu a chynnal ardaloedd gwarchoddedig morol cynrychioliadol a rhai a reolir yn effeithiol sy'n cyfrannu at rwydwaith byd-eang o ardaloedd gwarchoddedig.</p>
	<p><b>Confensiwn Oslo a Paris (OSPAR)</b> - nod hwn yw diogelu amgylchedd morol Gogledd-ddwyrain yr Iwerydd. Un o'r dulliau i gyflawni hyn yw sefydlu rhydwaith cydlynol o ardaloedd gwarchoddedig morol sy'n cael eu rheoli'n dda yn ecolegol.</p>
	<p><b>Confensiwn Bern</b> - mae hwn yn ceisio gwarchod a diogelu rhywogaethau planhigion ac anifeiliaid gwyllt a'u cynefinoedd naturiol ac yn ceisio sefydlu Rhwydwaith Esmerald, rhydwaith ecolegol sy'n cynnwys Ardaloedd o Ddiddordeb Cadwraeth Arbennig.</p>
	<p>Mae <b>Confensiwn Ramsar ar Wlyptiroedd o Bwysigrwydd Rhyngwladol 1971</b> yn anelu at warchod gwlyptiroedd i gefnogi eu defnydd cynaliadwy.</p>
Y DU	
	<p><b>Datganiad Polisi Morol y DU</b> - mae'n darparu fframwaith ar gyfer cynllunio morol. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau'r cynllun morol a gwneuthurwyr penderfyniadau ystyried sut y gall datblygiadau effeithio ar nod y DU i atal colli bioamrywiaeth a'r rhwymedigaethau cyfreithiol sy'n ymwneud â'r AMG, eu hamcanion cadwraeth a'u rheolaeth.</p>
	<p>Mae <b>Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009</b> - yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ffurfio rhydwaith o safleoedd, sy'n cyfrannu at gadwraeth a gwella amgylchedd morol y DU.</p>
	<p>Mae <b>Strategaeth Forol y DU (MSFD)</b> - yn ei gwneud yn ofynnol i Aelod-wladwriaethau gyflwyno mesurau i gyflawni neu gynnal Statws Amgylcheddol Da (SAD/GES) yn eu moroedd erbyn 2020. Bydd rhydwaith o AMG yn offeryn allweddol wrth gyfrannu at gyflawni Statws Amgylcheddol Da.</p>
	<p>Mae <b>Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 a Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau Morol Alltraeth 2017</b> - yn darparu ar gyfer sefydlu Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchod Arbennig.</p> <p>Mae <b>Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 yn</b> gwarchod anifeiliaid, planhigion a chynefinoedd yn y DU ac yn darparu ar gyfer dynodi Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.</p>
Cenedlaethol	
	<p><b>Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015</b> - mae hon yn anelu at wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n nodi saith o nodau llesiant ar gyfer y Gymru a garem, ac mae'r nodau'n cynnwys Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang ac sy'n gadarn.</p>
	<p>Mae <b>Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016</b> - yn nodi ymagwedd Cymru tuag at gynllunio a rheoli adnoddau naturiol ar lefel genedlaethol a lleol yn unol ag egwyddorion rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol ac yn gosod dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau.</p>

## RHAN 2 RHWYDWAITH YR AMG YNG NGHYMRU

9. Mae ardaloedd morol gwarchoddedig morol (AMG) yn derm cyffredinol am unrhyw ardal o fôr neu lan sydd wedi'i diogelu gan y gyfraith ar gyfer gwarchod cynefinoedd, rhywogaethau neu nodweddion naturiol eraill.
10. Mae rhwydwaith AMG cydlynus a reolir yn dda yn dod â mwy o fanteision i'r amgylchedd morol nag AMG unigol. Mae'n cyfrannu at warchod a gwella'r amgylchedd morol, rheoli adnoddau naturiol morol yn gynaliadwy a chyflawni Statws Amgylcheddol Da yn unol â gofynion Strategaeth Forol y DU.
11. Mae'r manteision i fioamrywiaeth forol, i gymdeithas a'n gweithgarwch economaidd yn cynnwys:



Gwarchod a gwella amrywiaeth biolegol, sy'n creu **gwydnwch** ymhlith ecosystemau.



Pysgodfeydd **cynaliadwy** trwy ddiogelu rhai cynefinoedd, a allai fod yn bwysig ar gyfer cyfnodau cylch bywyd allweddol, gan gynnwys ardaloedd silio neu feithrin a thiroedd bwydo mawr,



**Cymunedau** lleol, trwy greu swyddi, lles personol, diogelwch ynni a thrwy ddarparu cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau twristiaeth a gweithgareddau hamdden,




Cyfleoedd ar gyfer addysg, hyfforddiant ac ymchwil, gan ysbrydoli **ceniedlaethau'r dyfodol** a meithrin ymdeimlad cyffredin o berchnogaeth o'n cefnforoedd.

12. Yn gyffredinol, rydym yn anelu at rwydwaith o AMG sy'n:
- cynrychioli ystod y cynefinoedd a rhywogaethau yn ardal forol y DU,
  - gwarchod digon o ddyblygiadau i ddarparu cydnerthedd;
  - diogelu nifer priodol o bob nodwedd cynefin fras;
  - darparu cysylltiadau rhwng ardaloedd; ac sy'n cael
  - eu rheoli'n briodol i gyfrannu at warchod neu wella'r amgylchedd morol.
13. Mae yna 139 o AMG yng Nghymru, sy'n cwmpasu 69% o ddyfroedd glannau Cymru (allan hyd at 12 milltir forol) a 50% o holl ddyfroedd Cymru (allan at y llinell ganol). Mae AMG unigol wedi'u dynodi o dan amrywiaeth o ddeddfwriaeth wahanol. Pan gymerir nhw gyda'i gilydd, mae AMG unigol yn ffurfio rhwydwaith o gwmpas Cymru, y DU a Gogledd-ddwyrain yr Iwerydd.

14. Yng Nghymru, mae'r rhwydwaith yn cynnwys y mathau canlynol o AMG:



- **Mae Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA x 15)** yn gwarchod cynefinoedd a rhywogaethau penodol o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd Ewropeaidd (1992). Mae ACAau wedi'u dynodi o dan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 a Rheoliadau Cynefinoedd Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau Morol Alltraeth 2017.
- **Mae Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA x13)** yn diogelu poblogaethau o adar gwylltion o dan y Gyfarwyddeb Adar Ewropeaidd (1979). Mae AGA wedi'u dynodi o dan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 a Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau Morol Alltraeth 2017.
- **Mae Parthau Cadwraeth Morol (PCM x 1)** yn gwarchod rhywogaethau morol, cynefinoedd, neu nodweddion daearegol o ddiddordeb. Mae PCM wedi'u dynodi o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir (2009).
- **Mae Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA x 107)** yn diogelu rhai mathau o fywyd gwyllt a daeareg o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981. Yn bennaf, mae SoDdGA yn ddynodiad daearol, er y gallant gwmpasu glan y môr i lawr at y llanw isaf a gwely'r môr sianeli aberoedd.
- **Mae safleoedd Ramsar (x3)**, yn gwarchod ardal o gynefinoedd gwlyptiroedd a rhywogaethau cysylltiedig, adar yn bennaf. Mae angen safleoedd yn ôl confensiwn gwlyptiroedd rhyngwladol 1971 ('Confensiwn Ramsar').



15. Mae map o'r AMG presennol yn holl ddyfroedd Cymru (gyda'r glannau ac yn y môr mawr) i'w gweld yn Ffigur 1. Mae tabl o'r AMG a'r nodweddion y maent yn eu gwarchod i'w gweld yn Atodiad A.

Ffigur 1.

Rhwydwaith yr Ardaloedd Morol Gwarchodedig yng Nghymru



## RHAN 3 ASESIAD YN ERBYN ADRAN 123(2)

### Asesiad o Rwydwaith yr AMG ar Gydlyniant Ecolegol

16. Yn 2012, adroddodd Llywodraeth Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a nododd ei bwriad i ategu'r rhwydwaith AMG presennol yng Nghymru gyda dynodiad PCM (MCZs). Y bwriad oedd i'r PCM hyn gael y lefel uchaf o warchodaeth rhag pob gweithgaredd echdynol, dosbarthol, niweidiol ac aflonyddgar.
17. O ganlyniad, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar gynigion i ddynodi nifer o PCM gwarchoddedig iawn. Cynhyrnodd yr ymgynghoriad dros 6000 o ymatebion yn mynegi barn hynod wahanol a phendant. Roedd llawer o ymatebion o blaid yr egwyddor ar gyfer PCM diogel iawn, tra bod eraill yn teimlo y byddai'r ymagwedd warchoddedig iawn yn creu effeithiau economaidd-gymdeithasol annerbyniol heb fawr ddim tystiolaeth o'r manteision.
18. Yn dilyn yr ymgynghoriad, sefydlodd Llywodraeth Cymru Dîm Gorchwyl a Gorffen i adolygu'r adborth ar yr ymgynghoriad ac argymhell sut y dylid symud ymlaen â PCM yng Nghymru <sup>1</sup>.
19. Yn 2013, tynnodd Llywodraeth Cymru ei chynigion ar gyfer PCM yn ffurfiol yn ôl. Ar yr un pryd, ymrwymodd i ymgymryd â gwaith ychwanegol i ddeall y cyfraniad y mae AMG presennol yng Nghymru yn ei wneud tuag at rwymedigaethau ei rhwydwaith i fod yn sail ar gyfer y defnydd o bŵer y PCM yn y dyfodol.
20. Yn 2014, gofynnodd Llywodraeth Cymru i'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) a Chyfoeth Naturiol Cymru (NRW) asesu'r cyfraniad y mae AMG presennol yn ei wneud tuag at rwydwaith AMG y DU ac i ddarparu tystiolaeth ynghylch <sup>2</sup>:
  - sut mae'r AMG presennol yng Nghymru yn cyfrannu tuag at rwydwaith ecolegol gydlynol o AMG yn y DU,
  - p'un a oes unrhyw ddiffygion yn y rhwydwaith AMG yn nyfroedd Cymru (gyda'r glannau ac yn y môr mawr) y mae angen iddynt fynd i'r afael â hwy i fodloni rhwymedigaethau rhwydwaith Gweinidogion Cymru.
21. Daeth yr asesiad rhwydwaith i'r casgliad bod AMG yng Nghymru yn gwneud cyfraniad sylweddol tuag at gydlyniant ecolegol ledled y DU. Daeth i'r casgliad bod y mwyafrif o gynefinoedd a rhywogaethau'n cael eu cynrychioli a lle bo modd yn cael eu dyblygu, a bod y rhwydwaith wedi'i gysylltu'n dda.
22. Nododd yr asesiad rai bylchau mewn cydlyniant ecolegol, lle mae angen mynd i'r afael â hwy lle bo modd. Manylir ar y bylchau hyn yn **Atodiad C**.

<sup>1</sup> <https://gov.wales/docs/desh/publications/130717task-and-finish-team-report-on-mczs-in-wales-en.pdf>

<sup>2</sup> [http://jncc.defra.gov.uk/pdf/JNCC\\_NetworkProgressWelshWaters\\_Final.pdf](http://jncc.defra.gov.uk/pdf/JNCC_NetworkProgressWelshWaters_Final.pdf)



23. Mae manylion llawn yr asesiad rhwydwaith i'w gweld yma:  
[http://jncc.defra.gov.uk/pdf/JNCC\\_NetworkProgressWelshWaters\\_Final.pdf](http://jncc.defra.gov.uk/pdf/JNCC_NetworkProgressWelshWaters_Final.pdf)

#### Cadwraeth Natur yn Rhanbarth Dyfroedd Môr Mawr Cymru

24. Yn 2014, adroddodd y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru (Silk II) ac argymhellodd y dylid ymestyn swyddogaethau gweithredol Gweinidogion Cymru ar gyfer cadwraeth natur morol yn yr ardal gyda'r glannau yng Nghymru i ardal forol môr mawr Cymru. Mae'r swyddogaethau hyn yn cynnwys rhwymedigaethau Ewropeaidd a domestig ar gyfer:

- Nodi, dynodi a rheoli AMG fel rhan o rwydwaith;
- Gwarchod rhywogaethau penodol rhag dal, anaf a marwolaeth fwriadol drwy drwyddedu a gorfodi; a
- Monitro statws a chyflwr cynefinoedd a rhywogaethau.

25. Cyflwynwyd y gwaith o drosglwyddo swyddogaethau gwarchod natur yr Ysgrifennydd Gwladol i Weinidogion Cymru trwy:

- Ddiwygiadau i Reoliadau Cadwraeth Morol Alltraeth 2007, sy'n trosi Cyfarwydddebau Adar a Chynefinoedd yr UE. Trosglwyddodd hyn swyddogaethau cadwraeth natur cysylltiedig Ewropeaidd i Weinidogion Cymru ym mis Tachwedd 2017; a
- Deddf Cymru 2017, a drosglwyddodd swyddogaethau cadwraeth natur domestig i Weinidogion Cymru, sef y pwerau a gynhwysir yn Rhan 5 Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009, ym mis Ebrill 2018.

#### Dynodiadau AMG yn ystod y Cyfnod Adrodd

26. Yn 2014, daeth Rhan 5 Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir i rym. O ganlyniad, cafodd y Warchodfa Natur Forol yn Sgomer ei hail-ddosbarthu fel PCM yn unol â'r darpariaethau trosiannol a nodir yn Atodlen 12 Deddf y Môr. Ar hyn o bryd dyma'r unig PCM yn nyfroedd Cymru.

27. Ers 2014 mae'r rhwydwaith wedi'i gryfhau gydag AMG ychwanegol. Mae Tabl 2 yn darparu rhestr o'r AMG ychwanegol a ddynodwyd yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Mae'n cynnwys AMG yn rhanbarth môr mawr Cymru a ddaeth yn gyfrifoldeb i Weinidogion Cymru yn dilyn trosglwyddo pwerau cadwraeth natur yn y môr.

**Tabl 2 AMG newydd eu dynodi**

Enw'r AMG	Maint yr AMG (hectarau ha)	Nodwedd a Warchodir / Rheswm dros y Dynodiad	Cyngor ar Amcanion Cadwraeth
ACA Morol Gorllewin Cymru**	737614.0ha	Llamhidydd	<a href="http://jncc.defra.gov.uk/page-7343">http://jncc.defra.gov.uk/page-7343</a>
ACA Morol Gogledd Ynys Môn**	324949.0ha		
ACA Môr Hafren a'r Dyfroedd Cyfagos**	584994.0ha		
ACA Slabiau Carbonadaidd Croker***	11599.0ha	Strwythurau tanforol a wnaed gan nwyon yn gollwng	<a href="http://jncc.defra.gov.uk/page-6530">http://jncc.defra.gov.uk/page-6530</a>
AGA Bae Lerpwl*	252757.73ha	Ymestynnwyd yr AGA ac ychwanegwyd y wylan fechan, y forwennol fach a'r forwennol gyffredin fel nodweddion cymhwysu newydd  Ychwanegwyd yr hwyaden frongoch a'r fulfran fel elfennau a enwir o'r casgliad adar dŵr presennol	<a href="http://jncc.defra.gov.uk/page-7507">http://jncc.defra.gov.uk/page-7507</a>
Sgomer, Sgogwm a'r moroedd oddi ar AGA Sir Benfro**	166800.74ha	Estynnwyd yr AGA ddwywaith yn ystod y cyfnod adrodd i gynnwys manau bwydo morol ar gyfer adar drycin Manaw, pâl yr Iwerydd, gwylog a llurs.	<a href="http://jncc.defra.gov.uk/page-7497">http://jncc.defra.gov.uk/page-7497</a>
AGA Morwenoliaid Ynys Môn *	101931.07ha	Ail-enwyd yr AGA a'i hymestyn i ddod â'r tri safle magu gyda'r ardal fwydo forol o dan un ffin safle	<a href="https://cdn.naturalresources.wales/media/675726/anglesey-terns-pspa-draft-conservation-objectives-final.pdf">https://cdn.naturalresources.wales/media/675726/anglesey-terns-pspa-draft-conservation-objectives-final.pdf</a>
AGA Bae Gogledd	82703.68ha	AGA newydd ar gyfer trochwyr gyddfgoch sy'n	<a href="https://cdn.naturalresources.wales/media/67573">https://cdn.naturalresources.wales/media/67573</a>

Ceredigion		gaeafu	<a href="http://naturalresources.wales/media/674134/gras-sholm-spa-management-plan-21-1-408-english.pdf">0/northern-cardigan-bay-pspa-draft-conservation-objectives-final.pdf</a>
AGA Gwales*	1774.42ha	Estynnwyd yr AGA i gynnwys ardal forol ar gyfer yr Hugin	<a href="http://naturalresources.wales/media/674134/gras-sholm-spa-management-plan-21-1-408-english.pdf">http://naturalresources.wales/media/674134/gras-sholm-spa-management-plan-21-1-408-english.pdf</a>
AGA Arfordir Aberdaron ac Ynys Enlli *	33942.42ha	Estynnwyd yr AGA i gynnwys ardaloedd chwilota am fwyd morol ar gyfer Adar Drycin Manaw	<a href="http://naturalresources.wales/media/672092/glan-nau-aberdaron-plan-english.pdf">http://naturalresources.wales/media/672092/glan-nau-aberdaron-plan-english.pdf</a>
AGA Ffrynt Môr Iwerddon***	118000ha	AGA newydd ar gyfer Aderyn Drycin Manaw	<a href="http://jncc.defra.gov.uk/page-4565">http://jncc.defra.gov.uk/page-4565</a>

\* Estyniadau i AGA presennol

\*\* Mae'n ymestyn i ddyfroedd môr mawr Cymru

\*\*\* Dyfroedd y môr mawr yn gyfan gwbl (a ddynodwyd gan Ysgrifennydd Gwladol y DU) sydd bellach yn gyfrifoldeb Gweinidogion Cymru

## Asesiad o Gyflwr y Nodwedd

28. Mae'r amgylchedd morol yn ddynamig iawn ac mae amrywiadau naturiol yng nghyflwr y nodwedd i'w disgwyl. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithredu mesurau rheoli i fynd i'r afael â'r pwysau ar AMG i wella'r cyflwr a'r cyfraniad y mae'r rhwydwaith yn ei wneud i iechyd a chadernid yr amgylchedd morol.
29. Ym mis Ionawr 2018, cyhoeddodd Cyfoeth Naturiol Cymru adroddiadau dangosol am gyflwr safleoedd ar lefel nodwedd ar gyfer pob ACA ac AGA gyda'r glannau. Mae'r adroddiadau yn cynnwys cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru am gyflwr dangosol nodweddion gwarchoddedig<sup>3</sup> ac fe'u cynhyrchwyd i wella ein dealltwriaeth o gyflwr nodweddion safleoedd. Mae'r adroddiadau'n bwysig ar gyfer rheoli safleoedd, yn arbennig maent yn llywio datblygiad mesurau rheoli i wella cyflwr nodweddion, yn cynorthwyo gyda blaenoriaethu adnoddau, ac yn helpu gydag asesiadau o gynlluniau a phrosiectau.
30. Mae adroddiadau am gyflwr safleoedd yn dangos bod y rhwydwaith o AMG yn gallu cefnogi poblogaethau sylweddol o adar môr a mamaliaid morol mewn cyflwr ffafriol, yn ogystal ag amrywiaeth o rywogaethau a chynefinoedd gwely'r môr. Dyma brif ganfyddiadau'r adroddiadau:
- Mae 46% o'r holl nodweddion mewn cyflwr ffafriol, gyda'r mwyafrif wedi eu hasesu gyda llawer o hyder yn y dystiolaeth a ddefnyddiwyd i asesu'r cyflwr.
  - Mae 45% o nodweddion mewn cyflwr anffafriol, gyda thua hanner wedi eu hasesu gyda hyder mawr.
  - Mae 9% o'r nodweddion mewn cyflwr anhysbys, sy'n golygu nad oes digon o dystiolaeth i asesu eu cyflwr.
  - Mae nodweddion mamaliaid morol, gan gynnwys dolffin trwyn potel, morlo llwyd a dyfrgi, mewn cyflwr ffafriol.
  - Mae poblogaethau adar môr yn gyffredinol yn sefydlog neu'n cynyddu.
  - Pan aseswyd nodweddion AGA yn anffafriol, mae'r prif reswm yn gysylltiedig â thuaddiadau yn y DU, Ewrop neu'n fyd-eang yn hytrach na phroblemau ar lefel y safle.
  - Ar gyfer ACA, nodwyd bod problemau gydag ansawdd dŵr, llygredd, gweithgareddau heb drwydded a rhywogaethau anfrodorol ymledol yn bwysau allweddol ar gyflwr nodweddion.
31. Ar gyfer y ddwy AMG sy'n gyfan gwbl yn nyfroedd môr mawr Cymru, ACA Slabiau Carbonadaidd Croker ac AGA Ffrynt Môr Iwerddon, statws presennol y nodweddion yw 'Anhysbys'. Mae hyn i raddau helaeth oherwydd y ffaith bod yr AMG hyn yn ddynodiadau cymharol ddiweddar ac felly gwybodaeth gyfyngedig sydd ar gael am fonitro cyflwr safleoedd er mwyn casglu manylion am gyflwr.

---

<sup>3</sup> <https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/environmental-topics/wildlife-and-biodiversity/find-protected-areas-of-land-and-seas/indicative-feature-condition-assessments-for-european-marine-sites-ems/?lang=cy>  
<https://documents.hf.wales.gov.uk/id:A21346950/document/versions/published>

32. Mae'r tablau yn **Atodiad C** yn manylu ar yr asesiad o gyflwr dangosol ar lefel nodwedd ar gyfer pob nodwedd forol a warchodir gan ACA ac AGA gyda'r glannau ac ar y môr mawr.

### Cyflawniadau o ran Rheoli Rhwydwaith yr AMG

33. Yn 2014 sefydlodd Llywodraeth Cymru Grŵp Llywio Rheoli AMG. Mae'r Grŵp yn dwyn ynghyd gynrychiolwyr o'r prif awdurdodau rheoli yng Nghymru i weithio tuag at weledigaeth a rennir, amcanion a gytunir ac egwyddorion rheoli. Nod Grŵp Llywio Rheoli AMG yw sicrhau rheolaeth effeithiol o'r rhwydwaith AMG, sydd yn y pen draw yn gwella eu cyflwr, gan ddiogelu bioamrywiaeth forol, yr ecosystem ehangach a'r manteision economaidd-gymdeithasol i Gymru.

34. Gellir dod o hyd i ragor o fanylion am rôl y Grŵp Llywio yma:

<https://beta.gov.wales/marine-protected-area-management-steering-group-mpamsq-terms-reference>

35. Rhwng 2015 a 2016 cynhaliodd y Grŵp Llywio ymarfer ymgysylltu â rhanddeiliaid gan edrych ar opsiynau ar gyfer ymagwedd yn seiliedig ar ardaloedd i reoli AMG fel rhwydwaith. Yn dilyn adolygu ymatebion yr ymgysylltiad, daeth y Grŵp Llywio i'r casgliad, yng ngoleuni'r pwysau ariannu, y byddai sicrhau'r adnoddau sydd eu hangen i gyflwyno ac ailadrodd dull gweithredu ar draws ardaloedd ledled Cymru yn rhy heriol i'r awdurdodau rheoli dan sylw. Cytunodd y Grŵp Llywio i ganolbwyntio gweithgareddau ar ddarparu cymorth ac arweiniad i awdurdodau rheoli i hwyluso gwelliannau yng nghyflwr rhywogaethau a chynefinoedd a'r rhwydwaith AMG yn gyffredinol. Mae hyn yn cynnwys nodi cyfleoedd lle gallai awdurdodau rheoli gydweithio i sicrhau gwell canlyniadau ar gyfer AMG yng Nghymru.

36. Fel cam cyntaf, cynhyrchodd y Grŵp Llywio ddogfen sy'n nodi rolau a chyfrifoldebau awdurdodau rheoli ar gyfer rheoli AMG yng Nghymru. Yn 2017, ar ran y Grŵp Llywio, anfonodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig gopi o'r ddogfen rolau a chyfrifoldebau i bob awdurdod rheoli yng Nghymru.

37. Yn dilyn cyfnod sylweddol o weithgarwch yn 2018 cyhoeddodd y Grŵp Llywio Fframwaith Rheoli Rhwydwaith AMG Cymru 2018-2023. Mae'r Fframwaith yn nodi mewn un lle sut y caiff AMG eu rheoli nawr, a sut y byddant yn cael eu rheoli yn y dyfodol i wella cyflwr y rhwydwaith. Mae'n esbonio mai'r prif offer ar gyfer rheoli'r rhwydwaith yw trwy'r system reoleiddio sefydledig, sy'n cynnwys y broses drwyddedu forol. Mae'n nodi'r gwaith sydd eisoes ar y gweill i wella rheolaeth a chyflwr y rhwydwaith a'i nodweddion gwarchoddedig.

38. Gellir dod o hyd i gopi o Fframwaith Rheoli Rhwydwaith AMG Cymru 2018-2023 yma: <https://beta.gov.wales/marine-protected-area-network-management-framework-wales>
39. Cyhoeddwyd y Fframwaith ochr yn ochr â chynllun gweithredu. Mae Cynllun Gweithredu Rheoli Rhwydwaith yr AMG 2018-2019, yn rhoi ffocws i awdurdodau rheoli ar y camau gweithredu y rhoddir blaenoriaeth iddynt, a nodwyd gan Grŵp Llywio Rheoli AMG, i wella rheolaeth a chyflwr y rhwydwaith AMG yng Nghymru ymhellach. Mae'r Cynllun Gweithredu yn adeiladu ar y Cynlluniau Gwella Blaenoriaethol a'r pum maes gwaith blaenoriaethol a nodwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru yn dilyn cwblhau Rhaglen LIFE N2K yng Nghymru.
40. Bydd y camau gweithredu a nodir yng Nghynllun Gweithredu Rheoli Rhwydwaith yr AMG 2018-2019 yn cael eu cyflwyno mewn partneriaeth ag awdurdodau rheoli ledled Cymru: <https://beta.llyw.cymru/cynllun-gweithredu-ar-gyfer-rheolir-rhwydwaith-o-ardaloedd-morol-gwarchoddedig>

## **RHAN 4 GWAITH PELLACH SY'N ANGENRHEIDIOL I FODLONI ADRAN 123(2)**

41. Gwnaed cynnydd sylweddol yn ystod y cyfnod adrodd hwn tuag at Adran 123 Deddf y Môr a thuag at sefydlu rhwydwaith AMG sy'n gydlynol yn ecolegol, ac a reolir yn dda yng Nghymru.
42. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo'n llwyr i gynnal a gwella bioamrywiaeth forol ac ecosystemau a bydd yn parhau i weithio gyda gweinyddiaethau eraill y DU i gyflawni ein rhwymedigaethau.
43. Ymgymerir â gwaith pellach i fodloni rhwymedigaethau Gweinidogion Cymru, a nodir isod, yn ystod y cyfnod adrodd nesaf:

a) **Cwblhau Cyfraniad Cymru tuag at Rwydwaith yr AMG yn Nyfroedd y DU**

Mae asesiad rhwydwaith 2016 yn darparu'r dystiolaeth i ddangos bod angen AMG ychwanegol yn nyfroedd Cymru i fodloni rhwymedigaethau Gweinidogion Cymru o dan Ddeddf y Môr ac i fodloni ymrwymadau o dan y confensiwn OSPAR.

Gan ddefnyddio pwerau PCM (MCZ) o dan Ddeddf y Môr, bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â Chyfoeth Naturiol Cymru, y Cydbwyllgor Cadwraeth Natur a rhanddeiliaid i ystyried canlyniad asesiad rhwydwaith 2016 i fynd i'r afael â'r bylchau a nodwyd, lle bo modd. Cyhoeddir manylion pellach am sut y caiff PCM eu nodi i ymdrin â'r bylchau hyn a chwblhau cyfraniad Cymru tuag at rwydwaith yr AMG yn nyfroedd y DU yn gynnar yn 2019.

b) **PCM Sgomer**

Yn dilyn ei throsglwyddo o Warchodfa Natur Forol i PCM o dan Ddeddf y Môr, mae angen i Lywodraeth Cymru gyflwyno gorchymyn dynodi ar gyfer y PCM presennol yn Sgomer. Bydd y gorchymyn yn manylu ar nodweddion gwarchoddedig y PCM a'r amcanion cadwraeth cysylltiedig. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru a rhanddeiliaid yn llywio cam hwn y gwaith yn y dyfodol, y disgwylir iddo ddechrau tua diwedd 2019.

c) **Rhywogaethau Morol Symudol Iawn**

Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn ystyried a oes angen PCM ar gyfer rhywogaethau symudol iawn o fewn rhwydwaith yr AMG.

d) **Cylch Rheoli'r AMG**

Bydd Grŵp Llywio Rheoli'r AMG yn parhau i weithredu Cynllun Gweithredu Rheoli Rhwydwaith yr AMG ar gyfer 2018-19. Mae hyn yn cynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru yn adeiladu ar y gwaith asesu cyflwr ac adroddiadau a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2018 i ddatblygu ymagwedd tuag at gynnal asesiadau cyflwr AMG gwell a chyfnodol. Bydd y prosiect, a ddechreuodd yn 2018 ac sydd i fod i gael ei gwblhau yn 2021, yn datblygu dangosyddion a phroses ar gyfer adrodd yn y dyfodol ar gyflwr y nodweddion a ddiogelir o fewn y rhwydwaith AMG.

Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru a'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur i ddatblygu a chefnogi gweithredu rhaglen fonitro bioamrywiaeth forol wedi'i blaenoriaethu ac yn fforddiadwy, ar gyfer Cymru. Bydd y rhaglen yn adeiladu ar y gweithgareddau monitro presennol i:

- ddarparu dealltwriaeth o iechyd, cyflwr a chadernid moroedd Cymru;
- darparu dealltwriaeth o'r pwysau allweddol ar fioamrywiaeth forol a'r rhyngweithio â gweithgaredd dynol; a
- bod yn sail i benderfyniadau a mesurau rheoli.

Bydd y rhaglen fonitro bioamrywiaeth forol yn cynnwys AMG, gan gynnwys unrhyw rai a ddynodir yn y dyfodol.

Bydd Cynllun Gweithredu Rheoli'r AMG yn cael ei adolygu, ei ddiweddarau a'i gyhoeddi'n flynyddol. Fe'i cefnogir gan Adroddiad Rheoli Rhwydwaith yr AMG blynyddol a fydd yn nodi'r cynnydd yn erbyn cyflwyno'r camau gweithredu. Wrth ddatblygu'r Adroddiad Blynyddol, bydd y Grŵp Llywio yn gofyn am gyfraniadau gan awdurdodau rheoli, Swyddogion Safleoedd Morol Ewropeaidd ac eraill ar brosiectau sy'n cyfrannu at yr egwyddorion rheoli.

Cynhelir adolygiad o Fframwaith Rheoli Rhwydwaith yr AMG yn 2023.



## Atodiad A

### Rhestrau o rywogaethau a chynefinoedd a warchodir ym mhob un o'r Ardaloedd Morol Gwarchodedig yng Nghymru

Ardal Cadwraeth Arbennig	Nodwedd Forol
<b>Y Fenai a Bae Conwy / Menai Straits and Conwy Bay</b>	Riffiau
	Gwastadeddau llaid a gwastadeddau tywod nad ydynt o dan ddŵr môr adeg llanw isel
	Banciau tywod a orchuddir yn rhannol gan y môr drwy'r adeg
	Cilfachau a baeau mawr bas
	Ogofâu môr wedi eu boddi neu eu boddi'n rhannol
<b>Dee Estuary / Aber Dyfrdwy</b>	Dolydd heli'r Iwerydd <i>Glauco-Puccinellietalia maritima</i>
	<i>Salicornia</i> a blodau unflwydd eraill sy'n cytrefu mewn mwd a thywod
	Gwastadeddau llaid a gwastadeddau tywod nad ydynt o dan ddŵr môr adeg llanw isel
	Llystyfiant blynyddol ar linellau drifft
	Aberoedd
	Llysywen bendoll y môr <i>Petromyzon marinus</i>
	Llysywen bendoll yr afon <i>Lampetra fluviatilis</i>
<b>Pen Llŷn a'r Sarnau / Llyn Peninsula and the Sarnau</b>	Morlynnoedd arfordirol
	Aberoedd
	Cilfachau a baeau mawr bas
	Riffiau
	Banciau tywod a orchuddir yn rhannol gan y môr drwy'r adeg
	Dolydd heli'r Iwerydd <i>Glauco-Puccinellietalia maritima</i>
	Gwastadeddau llaid a gwastadeddau tywod nad ydynt o dan ddŵr môr adeg llanw isel
	Ogofâu môr wedi eu boddi neu eu boddi'n rhannol
	<i>Salicornia</i> a blodau unflwydd eraill sy'n cytrefu mewn mwd a thywod
	Morlo llwyd <i>Halichoerus grypus</i>
	Dyfrgi <i>Lutra lutra</i>
	Dolffin trwyn potel <i>Tursiops truncatus</i>
	<b>Carmarthen Bay and Estuaries / Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd</b>
Aberoedd	
<i>Salicornia</i> a blodau unflwydd eraill sy'n cytrefu mewn mwd a thywod	
Gwangen <i>Alosa fallax</i>	
Cilfachau a baeau mawr bas	

Ardal Cadwraeth Arbennig	Nodwedd Forol
	Gwastadeddau llaid a gwastadeddau tywod nad ydynt o dan ddŵr môr adeg llanw isel
	Banciau tywod a orchuddir yn rhannol gan y môr drwy'r adeg
	Llysywen bendoll y môr <i>Petromyzon marinus</i>
	Llysywen bendoll yr afon <i>Lampetra fluviatilis</i>
	Herlyn <i>Alosa alosa</i>
	Dyfrgi <i>Lutra lutra</i>
<b>Pembrokeshire Marine / Sir Benfro Forol</b>	Riffiau
	Aberoedd
	Cilfachau a baeau mawr bas
	Dolydd heli'r Iwerydd <i>Glauco-Puccinellietalia maritima</i>
	Morlynnoedd arfordirol
	Gwastadeddau llaid a gwastadeddau tywod nad ydynt o dan ddŵr môr adeg llanw isel
	Banciau tywod a orchuddir yn rhannol gan y môr drwy'r adeg
	Ogofâu môr wedi eu boddi neu eu boddi'n rhannol
	Morlo llwyd <i>Halichoerus grypus</i>
	Gwangen <i>Alosa fallax</i>
	Herlyn <i>Alosa alosa</i>
	Llysywen bendoll y môr <i>Petromyzon marinus</i>
	Llysywen bendoll yr afon <i>Lampetra fluviatilis</i>
	Tafolen y twyni <i>Rumex rupestris</i>
Dyfrgi <i>Lutra lutra</i>	
<b>Cardigan Bay / Bae Ceredigion</b>	Riffiau
	Banciau tywod a orchuddir yn rhannol gan y môr drwy'r adeg
	Ogofâu môr wedi eu boddi neu eu boddi'n rhannol
	Dolffin trwyn potel <i>Tursiops truncatus</i>
	Morlo llwyd <i>Halichoerus grypus</i>
	Llysywen bendoll y môr <i>Petromyzon marinus</i>
<b>Aber Hafren / Môr Hafren</b>	Dolydd heli'r Iwerydd <i>Glauco-Puccinellietalia maritima</i>
	Aberoedd
	Gwastadeddau llaid a gwastadeddau tywod nad ydynt o dan ddŵr môr adeg llanw isel
	Banciau tywod a orchuddir yn rhannol gan y môr drwy'r adeg
	Riffiau
	Gwangen <i>Alosa fallax</i>

Ardal Cadwraeth Arbennig	Nodwedd Forol
	Llysywen bendoll y môr <i>Petromyzon marinus</i>
	Llysywen bendoll yr afon <i>Lampetra fluviatilis</i>
Cynffig / Kenfig	Dolydd heli'r Iwerydd <i>Glauco-Puccinellietalia maritima</i>
Glannau Môn: Cors heli / Anglesey Coast: Saltmarsh	Dolydd heli'r Iwerydd <i>Glauco-Puccinellietalia maritima</i>
	<i>Salicornia</i> a blodau unflwydd eraill sy'n cytrefu mewn mwd a thywod
	Aberoedd
	Gwastadeddau llaid a gwastadeddau tywod nad ydynt o dan ddŵr môr adeg llanw isel
Bae Cemlyn / Cemlyn Bay	Morlynnoedd arfordirol
	Tusw troellog <i>Ruppia cirrhosa</i>
Arfordir Calchfaen De Orllewin Cymru / Limestone Coast of South West Wales	Ogofâu môr wedi eu boddi neu eu boddi'n rhannol
North Anglesey Marine / Gogledd Môn Forol	Llamhidydd <i>Phocoena phocoena</i>
West Wales Marine / Gorllewin Cymru Forol	Llamhidydd <i>Phocoena phocoena</i>
Bristol Channel Approaches / Dynesfeydd Môr Hafren	Llamhidydd <i>Phocoena phocoena</i>
Slabiau Carbonadaidd Croker	Strwythurau tanfor a wnaed gan nwyon yn gollwng

Ardal Gwarchodaeth Arbennig	Nodwedd Forol
Aber Dyfrdwy / Dee Estuary	Hwyaden lostfain <i>Anas acuta</i> Corhwyaden <i>Anas crecca</i> Chwiwell <i>Anas Penelope</i> Pibydd y Tywod <i>Calidris canutus</i> Pibydd y Mawn <i>Calidris alpina</i> Pioden y môr <i>Haematopus ostralegus</i> Rhostog Gynffonfrith <i>Limosa lapponica</i> Rhostog Gynffonddu <i>Limosa limosa</i> Gylfinir <i>Numenius arquata</i> Mulfran <i>Phalacrocorax carbo</i> Cwtiad Llwyd <i>Pluvialis squatarola</i> Morwennol Gyffredin <i>Sterna hirundo</i> Morwennol Fechan <i>Sterna albifrons</i> Morwennol Bigddu <i>Sterna sandvichensis</i> Hwyaden yr Eithin <i>Tadorna tadorna</i> Pibydd Coesgoch <i>Tringa totanus</i> Heidiau o adar y dŵr

<b>Bae Caerfyrddin / Carmarthen Bay</b>	Môr-hwyaden ddu <i>Melanitta nigra</i>
<b>Cilfach Tywyn / Burry Inlet</b>	Hwyaden lostfain <i>Anas acuta</i> Hwyaden lydanbig <i>Anas clypeata</i> Corhwyaden <i>Anas crecca</i> Chwiwell <i>Anas Penelope</i> Pibydd y Mawn <i>Calidris alpina</i> Pibydd yr Aber <i>Calidris canutus</i> Pioden y môr <i>Haematopus ostralegus</i> Gylfinir <i>Numenius arquata</i> Cwtiad Llwyd <i>Pluvialis squatarola</i> Hwyaden yr Eithin <i>Tadorna tadorna</i> Pibydd Coesgoch <i>Tringa totanus</i> Heidiau o adar y dŵr
<b>Liverpool Bay / Bae Lerpwl</b>	Trochydd Gyddfgoch <i>Gavia stellata</i> Môr-hwyaden ddu <i>Melanitta nigra</i> Gwylan fechan <i>Larus minutus</i> Morwennol Gyffredin <i>Sterna hirundo</i> Morwennol Fechan <i>Sterna albifrons</i> Heidiau o adar y môr
<b>Môr Hafren / Severn Estuary</b>	Hwyaden lwyd <i>Anas strepera</i> Gŵydd dalcen-wen <i>Anser albifrons albifrons</i> Pibydd y Mawn <i>Calidris alpina</i> Hwyaden yr Eithin <i>Tadorna tadorna</i> Pibydd Coesgoch <i>Tringa totanus</i> Hwyaden lostfain <i>Anas acuta</i> Cwtiad torchog <i>Charadrius hiaticula</i> Gylfinir <i>Numenius arquata</i> Heidiau o adar y dŵr
<b>Traeth Lafan / Lavan Sands</b>	Pioden y môr <i>Haematopus ostralegus</i>
<b>Gwales</b>	Hugan <i>Morus Bassanus</i>
<b>Skomer, Skokholm and the seas off Pembrokeshire / Sgomer, Sgogwm a Moroedd Sir Benfro</b>	Pâl <i>Fratercula arctica</i> Pedryn Drycin <i>Hydrobates pelagicus</i> Gwylan Gefnddu Leiaf <i>Larus fuscus</i> Aderyn drycin Manaw <i>Puffinus puffinus</i> Heidiau o adar y môr
<b>Glannau Aberdaron ac Ynys Enlli / Aberdaron Coast and Bardsey Island</b>	Aderyn drycin Manaw <i>Puffinus puffinus</i>
<b>Northern Cardigan Bay / Gogledd Bae Ceredigion</b>	Trochydd Gyddfgoch <i>Gavia stellata</i>
<b>Anglesey Terns / Morwenoliaid Ynys Môn</b>	Morwennol Gyffredin <i>Sterna hirundo</i> Morwennol yr Arctig <i>Sterna paradisaea</i> Morwennol Wridog <i>Sterna dougallii</i> Morwennol Bigddu <i>Sterna sandvichensis</i>

<b>Ffrynt Môr Iwerddon</b>	Aderyn drycin Manaw <i>Puffinus puffinus</i>
<b>Aber Dyfi</b>	Gŵydd dalcenwyn yr Ynys Werdd <i>Anser albifrons</i>

<b>Safleoedd Ramsar</b>	<b>Nodwedd Forol</b>
<b>Aber Afon Dyfrdwy</b>	<p>Gylfinir <i>Numenius arquata</i>  Hwyaden lostfain <i>Anas acuta</i>  Corhwyaden <i>Anas crecca</i>  Pibydd y Mawn <i>Calidris alpina</i>  Pibydd yr Aber <i>Calidris canutus</i>  Pioden y môr <i>Haematopus ostralegus</i>  Rhostog Gynffonfrith <i>Limosa lapponica</i>  Rhostog Gynffonddu <i>Limosa limosa</i>  Cwtiad Llwyd <i>Pluvialis squatarola</i>  Hwyaden yr Eithin <i>Tadorna tadorna</i>  Pibydd Coesgoch <i>Tringa totanus</i>  Aberoedd  Fflatiau llaid a fflatiau tywod nad ydynt yn cael eu gorchuddio gan ddŵr y môr adeg trai'r llanw  Dolydd heli'r Iwerydd (<i>Glaucopuccinellietalia maritima</i>)  Salicornia a phlanhigion unflwydd eraill sy'n coloneiddio mwd a thywod  Linellau drifft llystyfiant unflwydd  Heidiau o adar y dŵr</p>
<b>Burry Inlet / Cilfach Tywyn</b>	<p>Hwyaden lostfain <i>Anas acuta</i>  Pibydd Coesgoch <i>Tringa totanus</i>  Pioden y môr <i>Haematopus ostralegus</i>  Pibydd yr Aber <i>Calidris canutus</i>  Heidiau o adar y dŵr</p>
